



Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Craffu

Ionawr 2019

Cynnwys

<u>“Haen 1”</u> : Y tri phrif gwestiwn i’w gofyn	3
<u>“Haen 2”</u> : Am gynigion llai	4
<u>“Haen 3”</u> : Manylion pellach/ am gynigion mwy, a rhai mwy cymleth	6
<u>Rhan 1: Materion Lleol</u>	6
<u>Rhan 2: Dulliau o Weith</u>	7
<u>Hirdymor</u>	7
<u>Atal</u>	8
<u>Integreiddio</u>	9
<u>Cydweithio</u>	10
<u>Ymgyfraniad</u>	11
<u>Rhan 3: Nodiau Llesiant</u>	12
<u>Cymru Lewyrchus</u>	12
<u>Cymru Gydnerth</u>	14
<u>Cymru Iachach</u>	15
<u>Cymru Fwy Cyfartal</u>	16
<u>Cymru o Gymunedau Cydlynol</u>	17
<u>Cymru â Diwylliant Bywiog Lle Mae’r Gymraeg yn Ffynnu</u>	18
<u>Cymru sy’n Gyfrifol ar Lefel Byd-eang</u>	19

“Haen 1”: Y tri phrif gwestiwn i’w gofyn

Pwnc	Yr hyn y gallech ei ofyn	Yr hyn y byddech yn disgwyl ei glywed
Hirdymor	Pa ystyriaeth ydych wedi ei rhoi i dueddiadau hirdymor a fedrai effeithio ar eich cynnig neu sut fedrai eich cynnig effeithio ar y tueddiadau hyn?	<ul style="list-style-type: none"> • Mae’r person wedi ystyried tueddiadau cymdeithasol, economaidd/gwleidyddol, amgylcheddol posibl, dros, o leiaf, gyfnod y genhedlaeth nesaf (gan edrych ymlaen 5.10, 15, 25, a 50 mlynedd i’r dyfodol), yn cynnwys: y tueddiadau y gwyddys amdanynt (e.e. poblogaeth sy’n heneiddio, adnoddau naturiol sy’n lleihau), a’r rhai hynny â lefel uwch o ansicrwydd (e.e. swyddi a sgiliau a fydd eu hangen yn y dyfodol).
Atal Cydweithio Integreiddio	A yw’r cynnig hwn yn ceisio atal problemau rhag digwydd – os felly, beth ydyn nhw a sut fyddwch chi’n gwybod eich bod yn eu hatal drwy’r cynnig hwn?	<p>Mae’r person wedi ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • A yw’r cynnig yn ymwneud ag atal sylfaenol (h.y. mynd i’r afael â’r hyn sydd wrth wraidd y broblem) neu atal eilaidd (atal problem sy’n bodoli rhag gwaethygu) pan fyddant yn ystyried ymyrryd; • Pa risgiau sydd yna o beidio gweithredu eu cynnig yn nhermau creu problemau newydd neu adael i rai sy’n bodoli waethygu; • Sut fedr pobl tu hwnt i’w hardal/maes arbenigedd/sefydliad eu helpu i ddeall lle gallai’r gweithredu ataliol gorau ddigwydd;
Cydweithio Integreiddio Ymgyfrannu	Gyda phwy ydych chi wedi cydweithio i ddarganfod mwy am y broblem hon a datrysiadau posibl?	<ul style="list-style-type: none"> • Mae’r person wedi ceisio ennill dealltwriaeth o’r broblem a’r datrysiad arfaethedig o bersbectifau eraill, yn cynnwys darganfod ar draws ei sefydliad a thu hwnt pwy arall sy’n ceisio ‘datrys y broblem hon’; • Dylai’r datrysiad fod wedi ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol wrth gyflawni’r saith nod llesiant; • Dylai’r person fod wedi ennyn ymgyfraniad pobl sy’n dwyn mewnwelediad, her adeiladol, data a datrysiadau – y bobl arferol a’r bobl anarferol.

“Haen 2”: Am gynigion llai

Pwnc	Yr hyn y gallech ei ofyn	Yr hyn y byddech yn disgwyl ei glywed
<p>Llesiant lleol Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau datganoledig y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi gosod amcanion Llesiant Lleol, wedi eu dylunio i wella Llesiant pobl yn eu hardal. Mae rhai sefydliadau hefyd yn rhan o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus - sydd wedi gosod cydamcanion Llesiant Lleol i'w hardaloedd weithio tuag at eu cyflawni gyda'i gilydd.</p>	<p>Sut mae eich cynnig yn cysylltu â'r amcanion Llesiant a osodwyd ar gyfer yr ardal hon?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r person wedi defnyddio amcanion Llesiant Lleol yr ardal a rhai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i egluro sut mae eu cynnig yn cynorthwyo cyflawniad yr amcanion hyn.
<p>Hirdymor Pwysigrwydd creu cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu, hefyd, y gallu i gwrdd ag anghenion hirdymor.</p>	<p>Beth yw'r angen am hyn (yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor)? A fydd yr angen yn dal i fodoli yn yr hirdymor?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ystyriodd y person dueddiadau cymdeithasol, economaidd/gwleidyddol, amgylcheddol, diwylliannol neu dechnolegol posibl dros gyfnod sydd, o leiaf, yn edrych ymlaen 5.10, 15, 25, a 50 mlynedd i'r dyfodolyn cynnwys: y tueddiadau gwybyddus (e.e. poblogaeth sy'n heneiddio, gan ddisbyddu adnoddau naturiol), a'r rhai â lefel uwch o ansicrwydd (e.e. swyddi a sgiliau y bydd eu hangen yn y dyfodol).
	<p>Pryd fydd y newidiadau/polisi yn effeithio ar bobl?</p>	
<p>Atal Atal problemau rhag digwydd neu waethygu.</p>	<p>A yw'r cynnig hwn yn ceisio atal problemau rhag digwydd - os felly, beth ydyn nhw a sut fyddwch chi'n gwybod eich bod yn eu hatal drwy'r cynnig hwn?</p>	<p>Mae'r person wedi ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Os ydyw'r cynnig yn ymwneud ag atal sylfaenol (h.y. mynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd y broblem) neu atal eilaidd (atal problem sy'n bodoli rhag gwaethygu) pa bryd maen nhw'n bwriadu ymyrryd; • pa risgiau sydd yna o beidio gweithredu eu cynnig yn nhermau creu problemau newydd neu adael i'r rhai sy'n bodoli waethygu; • sut fedr pobl tu hwnt i'w hadran/maes arbenigedd/sefydliad eu helpu i ddeall lle gallai'r gweithredu ataliol gorau ddigwydd.
	<p>Sut mae eich cynnig yn cynorthwyo chwalu cylchoedd negyddol ac/neu heriau sy'n pontio cenedlaethau megis tlodi, afiechyd, niwed amgylcheddol a cholli bioamrywiaeth?</p>	

Pwnc	Yr hyn y gallech ei ofyn	Yr hyn y byddech yn disgwyl ei glywed
<p>Integreiddio Ystyried sut y gallai amcanion llesiant cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.</p>	<p>A ddylen ni fod yn gwneud hyn? A oes yna rywun arall sydd mewn gwell sefyllfa i wneud hyn?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r person wedi ennyn ymgyfraniad gwahanol adrannau, sefydliadau, a sectorau wrth ddod i ddeall pwy sy'n gwneud beth ac ym mha le mae'r cynnig hwn yn ffitio mewn.
	<p>Sut ydych chi wedi defnyddio'r pum dull o weithio i ystyried y modd y mae'r cynnig yn cyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol - yn awr a drwy fywyd y prosiect? Pa effeithiau cadarnhaol neu niweidiol fedrai'r cynnig ei gael ar gyflawniad y nodau drwy gydol ei fywyd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r person wedi defnyddio'r saith nod llesiant cenedlaethol fel canllaw ar gyfer llunio'r cynnig ac wedi ystyried yr effeithiau cadarnhaol a negyddol y gallai'r cynnig ei gael ar gyflawni'r nodau dros amser.
	<p>Pa ddyletswyddau a pholisïau eraill sy'n berthnasol i'r prosiect hwn? A ydych chi wedi meddwl am y modd y gallwch 'ladd nifer o adar ag un ergyd'?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r person wedi ystyried sut y gallai'r cynnig hwn effeithio ar ddeddfwriaeth arall, dyletswyddau a pholisïau – yn gadarnhaol neu negyddol – ar gyfer y sefydliad.
<p>Cydweithio Gweithio mewn cydweithrediad ag unrhyw berson (neu wahanol rannau o'r sefydliad ei hunan).</p>	<p>Gyda phwy ydych chi wedi bod yn gweithio? Pam? Gyda phwy ydych chi wedi cydweithredu i ddod i wybod mwy am y broblem hon a datrysiadau posibl?</p>	<p>Mae'r person wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwneud ymdrech i ddod i wybod pwy arall, o fewn y sefydliad, a thu hwnt sy'n ceisio 'datrys y broblem hon'; • ennyn ymgyfraniad pobl sy'n dwyn mewnwelediad, her adeiladol, data a datrysiadau – y bobl arferol ac anarferol, tu mewn a thu allan i'r sefydliad; • deall y broblem ac wedi cynnig datrysiad o bersbectifau eraill.
<p>Ymgyfrannu Y pwysigrwydd o ennyn ymgyfraniad pobl â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan y corff.</p>	<p>Pwy sy'n gweithio gyda chi ar y cynnig hwn? Sut rydych chi wedi ennyn eu hymgyfraniad?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Maen nhw wedi rhoi amser ac adnoddau o'r neilltu ar gyfer defnyddio llawer o wahanol ddulliau o siarad â'r bobl sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig megis trafodaethau wyneb yn wyneb, arolygon, fforymau ar-lein etc.

“Haen 3”: Manylion pellach/ am gynigion mwy, a rhai mwy cymleth

RHAN 1: MATERION LLEOL

Pwnc	Yr hyn y gallech ei ofyn	Yr hyn y byddech yn disgwyl ei glywed
<p>Llesiant lleol</p> <p>Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau datganoledig y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi gosod amcanion Llesiant lleol, wedi eu dylunio i wella Llesiant pobl yn eu hardal. Mae rhai sefydliadau hefyd yn rhan o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus - sydd wedi gosod cydamcanion Llesiant lleol i'w hardaloedd weithio gyda'i gilydd i'w cyflawni.</p>	<p>Sut mae eich cynnig yn mynd i'r afael â materion neu gyfleoedd a nodwyd yn yr asesiad Llesiant lleol (ac asesiadau perthnasol eraill) yr ardal?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Maen nhw wedi defnyddio'r asesiad Llesiant (a gynhaliwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yr ardal) ac unrhyw asesiadau eraill perthnasol i ddeall y materion a'r cyfleoedd sy'n effeithio ar lesiant. Maen nhw wedi edrych ar y modd y bydd y prosiect yn effeithio ar wahanol ardaloedd yn y rhanbarth.
	<p>Ble fydd y prosiect yn cael ei leoli? Beth a ddywed yr asesiadau o'r ardal am faterion allweddol sy'n berthnasol i'r lleoliad hwnnw?</p>	
	<p>Sut mae'r cynnig yn cynorthwyo amcanion Llesiant lleol a sut fydd yn helpu'r sefydliad i gymryd camau i gyflawni'r amcanion?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Maen nhw wedi ystyried amcanion Llesiant lleol y sefydliad a rhai'r Bwrdd Gwasanaethau cyhoeddus. Gallant egluro sut mae eu cynnig yn cynorthwyo cyflawniad yr amcanion hyn.

RHAN 2: DULLIAU O WEITHIO

Pwnc	Yr hyn y gallech ei ofyn	Yr hyn y byddech yn disgwyl ei glywed
<p>Hirdymor</p> <p>Pwysigrwydd creu cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i gwrdd, hefyd, ag anghenion hirdymor.</p>	<p>Pa ystyriaeth ydych chi wedi ei rhoi i dueddiadau hirdymor a fedrai effeithio ar eich cynnig neu; sut fedrai eich cynnig effeithio ar y tueddiadau hyn?</p>	<ul style="list-style-type: none"> Maen nhw wedi defnyddio data a thystiolaeth i archwilio tueddiadau cymdeithasol, economaidd/gwleidyddol, amgylcheddol diwylliannol neu dechnolegol posibl o nawr hyd at y 2070au - fe ddylen nhw fod yn edrych ymlaen 25-50 mlynedd i'r dyfodol.
	<p>Pa mor gadarn yw'r dadansoddiad o'r tueddiadau a nodwyd gennych?</p>	<ul style="list-style-type: none"> Maen nhw wedi meddwl am dueddiadau y gwyddys amdanynt (e.e. poblogaeth sy'n heneiddio, adnoddau naturiol sy'n cael eu disbyddu), a'r rhai hynny â lefel uwch o ansicrwydd (e.e. swyddi a'r sgiliau a fydd eu hangen yn y dyfodol).
	<p>Pryd fydd y newidiadau/polisi hyn yn effeithio ar bobl? A fydd ei angen o hyd yn y dyfodol hirdymor?</p>	
	<p>Sut y cafodd yr anghenion hyn eu canfod gydag ystyriaeth o'r cyfnod tu hwnt i weithrediad?</p>	
	<p>Sut fydd y cynnig/datrysiad hwn yn edrych ymhen 10 mlynedd. Sut fydd hyn yn esblygu?</p>	<ul style="list-style-type: none"> Maen nhw wedi meddwl tu hwnt i'r pwnc hwn ac wedi edrych ar bethau eraill a allai effeithio ar y cynnig.
	<p>Pa effaith mae hwn yn debygol o'i gael ymhen degawd neu ar draws cenhedlaeth?</p>	
	<p>Ydych chi wedi meddwl am brosiect/cynllun tymor hwy?</p>	

Pwnc	Yr hyn y gallech ei ofyn	Yr hyn y byddech yn disgwyl ei glywed
<p>Atal</p> <p>Atal problemau rhag digwydd neu waethygu.</p>	<p>Beth yw'r amcan (neu ganlyniad delfrydol) y cynnig hwn? Pa beth mae'n ceisio'i atal?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gallant esbonio'n glir beth mae'r amcan hwn yn ceisio ei gyflawni. • Gallant siarad am y risgiau o beidio gweithredu eu cynnig, yn nhermau creu problemau newydd neu adael i'r rhai sy'n bodoli waethygu.
	<p>A yw'r cynnig hwn yn ceisio atal problemau rhag digwydd – os felly beth ydyn nhw a sut fyddwch chi'n gwybod eich bod yn eu hatal drwy'r cynnig hwn?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Maen nhw wedi meddwl a ydynt yn anelu at wneud rhywbeth i fynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd y broblem (a elwir yn 'atal sylfaenol') neu atal rhywbeth rhag gwaethygu (a elwir yn 'atal eilaidd). • Mae ganddynt resymau a thystiolaeth am y rhesymau dros ddewis atal sylfaenol neu eilaidd. • Maen nhw wedi meddwl am y tensiynau ac effeithiau peidio â gwneud rhai pethau i atal pethau eraill.
	<p>Sut mae eich cynnig yn cynorthwyo chwalu cylchoedd negyddol ac/neu heriau sy'n pontio cenedlaethau megis tlodi, afiechyd, niwed amgylcheddol a cholli bioamrywiaeth?</p>	
	<p>Sut, hyd yn hyn, y gwnaethpwyd y penderfyniadau? Pa benderfyniadau amgen a gafodd eu hystyried?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Maen nhw wedi edrych tu hwnt i'w hadran, y sefydliad neu eu maes arbenigol i ddeall ble gallai'r gweithredu ataliol gorau ddigwydd.

Pwnc	Yr hyn y gallech ei ofyn	Yr hyn y byddech yn disgwyl ei glywed
<p>Integreiddio</p> <p>Ystyried sut fedrai amcanion llesiant cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.</p>	<p>A ddylen ni fod yn gwneud hyn? A oes rhywun arall, sydd mewn gwell sefyllfa, eisoes yn gwneud hyn? A ydych chi wedi ymgynghori â sefydliadau eraill y sector cyhoeddus perthnasol a allai yn eich barn gael eu heffeithio?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Maen nhw wedi ennyn ymgyfraniad adrannau, sefydliadau a sectorau wrth ddod i ddeall pwy sy'n gwneud beth a ble mae'r cynnig hwn yn ffitio i mewn.
	<p>Pa gamau ymarferol fyddwch chi yn eu cymryd i integreiddio eich prosiect gyda chynlluniau a strategaethau sefydliadau cyhoeddus eraill sy'n bodoli eisoes i'n helpu ni i gyd i gyfrannu'n llawn i'r saith nod llesiant cenedlaethol?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Maen nhw wedi defnyddio'r saith nod llesiant cenedlaethol fel canllaw ar gyfer ffurfio'r cynnig ac ystyried yr effeithiau cadarnhaol a negyddol y gallai'r cynnig ei gael ar gyflawniad y nod dros amser.
	<p>Sut rydych chi wedi defnyddio'r pum dull o weithio i ystyried y modd y mae'r cynnig yn cyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol – yn awr a drwy fywyd y prosiect?</p>	
	<p>Pa ddyletswyddau a pholisïau eraill sy'n berthnasol i'r prosiect hwn? A ydych chi wedi meddwl am y modd y gallwch 'ladd nifer o adar ag un ergyd'?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Tystiolaeth eu bod wedi ystyried sut y gallai'r cynnig hwn effeithio ar ddeddfwriaeth arall, dyletswyddau a pholisïau - yn gadarnhaol neu'n negyddol - ar gyfer y sefydliad. Gallai hyn fod yn Safonau'r Iaith Gymraeg, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, y ddyletswydd bioamrywiaeth etc.

Pwnc	Yr hyn y gallech ei ofyn	Yr hyn y byddech yn disgwyl ei glywed
<p>Cydweithio</p> <p>Gweithio mewn cydweithrediad ag unrhyw berson (neu wahanol rannau o'r sefydliad ei hunan).</p>	<p>Gyda phwy ydych chi wedi bod yn gweithio? Pam? Gyda phwy ydych chi wedi cydweithredu i ddod i wybod am y broblem hon a datrysiadau posibl?</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gwneud ymdrech i ddod i wybod pwy arall o fewn y sefydliad a thu hwnt sy'n ceisio 'datrys y broblem hon'. Dylai fod ganddynt ddealltwriaeth o'r broblem a'r datrysiad arfaethedig o bersbectifau eraill;
	<p>Sut ydych chi'n cydweithio gyda sectorau eraill?</p>	<ul style="list-style-type: none"> Dylent fod wedi ennyn ymgyfraniad pobl sy'n dwyn mewnwelediad, her adeiladol, data a datrysiadau – y bobl arferol ac anarferol. Dylent hefyd fod yn cynllunio i ennyn eu hymgyfraniad yn eu cyflawniad;
	<p>Sut ydych chi'n defnyddio gwybodaeth/arfer da eraill i drwytho/dylanwadu ar ein gwaith?</p>	
	<p>Beth yw amcan y cydweithio? A yw'r bartneriaeth hon yn gweithio? Beth ydyn ni wedi ei gyflawni drwy weithio gyda'n gilydd? Ai'r rhain yw'r bobl iawn?</p>	<ul style="list-style-type: none"> Dylent hefyd fod wedi holi a yw'r bartneriaeth yn gweithio, beth yw ei nod yng nghyd-destun y cynnig hwn ac a yw'r bobl iawn yn ymgyfrannu;
	<p>Beth yw'r risgiau os na fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd? Sut ydyn ni'n cynllunio ar gyfer y dyfodol?</p>	<ul style="list-style-type: none"> Dylen nhw fod wedi meddwl am yr hyn a allai ddigwydd i unrhyw un o'r sefydliadau sy'n ymgyfrannu; y risgiau o beidio cydweithio a gwneud cynlluniau wrth gefn.

Pwnc	Yr hyn y gallech ei ofyn	Yr hyn y byddech yn disgwyl ei glywed
<p>Ymgyfraniad</p> <p>Y pwysigrwydd o ennyn ymgyfraniad pobl â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan y corff.</p>	<p>Ymgyfraniad pwy wnaethoch chi ei ennyn yn y prosiect hwn? A yw pobl ifanc wedi cael cyfle i roi eu barn ar y materion hyn?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Maen nhw wedi rhoi amser ac adnoddau o'r neilltu ar gyfer defnyddio llawer o wahanol ddulliau o siarad â'r bobl sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig megis trafodaethau wyneb yn wyneb, arolygon, fforymau arlein etc.
	<p>Sut ydych chi wedi ennyn ymgyfraniad y bobl sy'n cael eu heffeithio gan y penderfyniad hwn? Ai syniadau pobl yn y gymuned yw'r rhain neu syniadau'r bobl sydd â'r pŵer? Sut fedrwch chi ddangos ymgyfraniad y rhai sy'n cynrychioli amrywiaeth yn eich cymunedau?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Maen nhw wedi mynd yn uwch a thu hwnt i ddealltwriaeth wirioneddol o fywydau'r bobl sy'n cael eu heffeithio ac wedi meddwl sut y gallai'r cynnig fod yn well drwy gadw hyn mewn golwg.
	<p>Sut fedrwch chi ddangos bod yr ymgyfraniad hwnnw wedi dylanwadu ar eich ymagwedd/ polisi. Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud?</p>	
	<p>Sut ydych chi wedi defnyddio dulliau gwahanol/amgen i gyrraedd pobl ac ennyn eu hymgyfraniad?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Maen nhw wedi bod yn arloesol yn y modd y maen nhw'n cyrraedd pobl - mynychu eu cyfarfodydd neu gyfleoedd o fewn y gymuned.
	<p>Sut fyddwch chi'n cyfleu canlyniad eich penderfyniad?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Maen nhw wedi cynllunio (yn cynnwys amser ac adnoddau) i barhau'r sgwrs gyda'r bobl y maen nhw hyd yn hyn wedi ennyn eu hymgyfraniad - gan roi adborth, a gwerthuso'r cynnig a'r dysgu drwy'r amser, ochr yn ochr â'r gymuned.

RHAN 3: NODAU LLESIANT

Pwnc	Yr hyn y gallech ei ofyn	Yr hyn y byddech yn disgwyl ei glywed
<p>Cymru lewyrchus</p> <p>Cymdeithas arloesol gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd byd-eang ac felly'n defnyddio adnoddau yn effeithlon a chymesur (yn cynnwys gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau gwaith gweddus.</p>	<p>Sut mae'r cynnig hwn yn cyfrannu tuag at Gymru fwy llewyrchus – yn awr; a beth mwy fedrwrch chi ei wneud wrth i'r cynnig gael ei gyflawni i facsimeiddio eich cyfraniad i'r nod hwn?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Maen nhw wedi edrych ar y modd y mae'r cynnig ar hyn y bryd yn anelu at Gymru lewyrchus (gan ddefnyddio'r diffiniad llawn, nid dim ond y teitl). • Maen nhw wedi ystyried beth mwy fedrant ei wneud drwy gyflawni'r cynnig.
	<p>A yw'r cynnig hwn yn defnyddio adnoddau'n effeithlon? (adnoddau naturiol, arian, amser, staff, adeiladau/tir).</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gallant egluro sut maen nhw wedi meddwl am ddulliau newydd o gyflawni'r cynnig i ddefnyddio adnoddau yn y ffordd orau, yn cynnwys minimeiddio'r defnydd o adnoddau.
	<p>Sut fedrwn ni leihau neu facsimeiddio'r defnydd o adnoddau drwy'r cynnig hwn?</p>	
	<p>Sut fydd y cynnig hwn yn gwthio cyflawniad gwasanaeth i gyfeiriad mwy cynaliadwy, ac arloesol?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Maen nhw wedi meddwl yn arloesol am y broblem yn hytrach mynd i'r afael â hi gyda'r un hen ddatrysiadau. Maen nhw wedi rhoi sylw egniol i'r cyfleoedd a'r tueddiadau perthnasol sy'n effeithio ar yr ardal ar hyn o bryd a sut y gellir defnyddio hyn er budd iddynt. • Maen nhw wedi meddwl am y modd y gallai'r cynnig effeithio ar sectorau busnes newydd, cynorthwyo arloesedd cymdeithasol ac entrepreneuriaid. Os yn berthnasol, maen nhw wedi ystyried sut y gellir defnyddio arloesedd i fynd i'r afael ag afiechyd, creu busnesau sy'n tyfu mewn ardaloedd sy'n dioddef dirywiad economaidd a helpu i greu cyfleoedd ar gyfer twf gwyrdd ar draws Cymru.
	<p>Ydych wedi ystyried y liferi sy'n tyfu sgiliau yng Nghymru?</p>	
	<p>Sut fydd hwn yn cynorthwyo a datblygu gweithlu medrus ar gyfer y dyfodol?</p>	
	<p>Sut fydd y cynnig yn creu swyddi hirdymor, cynaliadwy? (yn arbennig mewn mannau â lefelau uchel o ddiweithdra a than-gyflogaeth).</p>	
	<p>Sut fydd hwn yn effeithio'n gadarnhaol neu'n cadw gweithlu medrus o fewn ein cymunedau?</p>	
	<p>Sut fydd hwn yn cynorthwyo'r gweithlu i ddefnyddio arloesedd, technoleg a datrysiadau digidol wrth gyflawni gwasanaethau?</p>	

Pwnc	Yr hyn y gallech ei ofyn	Yr hyn y byddech yn disgwyl ei glywed
Cymru lewyrchus (parhad)	Sut fedr y cynnig hwn ein helpu i dyfu economi lleol llewyrchus?	
	Ydyn ni wedi ystyried y pum dull o weithio? A ydyn ni'n monitro tueddiadau'r dyfodol sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn?	
	Pa ymddygiadau a anogir gan y prosiect hwn neu na chânt eu hannog e.e. a yw'n annog defnyddio ceir preifat? A yw'n cynyddu darpariaeth gwasanaethau lleol? A yw'n cynorthwyo economi lle mae swyddi'n cael eu lleoli lle mae pobl yn byw, yn hytrach nag yn unig mewn dinasoedd mwy? A yw'n annog pobl a busnesau i brynu'n lleol?	<ul style="list-style-type: none"> ● Maen nhw wedi meddwl am oblygiadau'r cynnig hwn i ymddygiad staff a'r cyhoedd.
	Sut fydd y prosiect hwn yn cyflwyno cyfleoedd i sectorau busnes newydd a chynhyrchiad nwyddau cyhoeddus?	<ul style="list-style-type: none"> ● Maen nhw wedi meddwl am effaith y cynnig ar wahanol fusnesau a sut y gall y cynigion annog busnesau arbennig.
	Sut fydd yn cynorthwyo twf cadwyni cyflenwi lleol a sectorau busnes carbon isel?	
	Pa wahanol fathau o werthoedd sy'n cael eu hybu gan y prosiect hwn? (gwerth economaidd, gwerth cyhoeddus, gwerth cymdeithasol?)	
	Sut fedrwn ni ddylanwadu ar arfer comisiynu i gynorthwyo BBaChau?	
	Beth yw goblygiadau ariannol y penderfyniad hwn i wasanaethau cysylltiedig neu integredig?	<ul style="list-style-type: none"> ● Maen nhw wedi meddwl am y modd y bydd y cynnig yn effeithio ar sectorau eraill a sefydliadau eraill yn yr ardal.

Pwnc	Yr hyn y gallech ei ofyn	Yr hyn y byddech yn disgwyl ei glywed
<p>Cymru gydnerth</p> <p>Cenedl sy'n cynnal a chynyddu amgylchedd bioamrywiol naturiol gydag ecosystemau iach sy'n cynorthwyo cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft y newid yn yr hinsawdd).</p>	<p>Sut mae'r cynnig hwn yn cyfrannu at Gymru fwy cydnerth – yn awr; a beth mwy fedrwch chi ei wneud wrth i'r cynnig gael ei gyflawni i facsimeiddio eich cyfraniad i'r nod hwn?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Maen nhw wedi edrych ar y modd y mae'r cynnig ar hyn o bryd yn anelu at greu Cymru gydnerth (gan ddefnyddio'r diffiniad llawn nid dim ond y teitl). Maen nhw wedi ystyried beth mwy allant ei wneud drwy gyflawni'r cynnig.
	<p>Sut fedr hyn ein helpu i newid ac addasu i heriau ac anghenion ein cymunedau?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Maen nhw wedi edrych ar y data sy'n berthnasol i wahanol ardaloedd ac yn medru egluro sut mae'r cynnig yn helpu i fynd i'r afael â gwahanol heriau ac yn manteisio i'r eithaf ar wahanol gyfleoedd mewn cymunedau arbennig.
	<p>Sut fydd y cynnig hwn yn cynorthwyo cydnerthedd economaidd yn y Gymru wledig e.e. yn y sector amaethyddol?</p>	
	<p>Sut mae eich cynnig yn gwarchod a gwella ecosystemau sy'n cynorthwyo gweithgaredd economaidd yng Nghymru? e.e. sut fydd yn effeithio ar gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth mewn bywyd gwyllt a chadwraeth?</p>	
	<p>Sut mae eich cynnig yn helpu Cymru i addasu i'r newid yn yr hinsawdd, er enghraifft effeithiau cynnydd mewn llifogydd a digwyddiadau tywydd eithafol?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Maen nhw wedi ystyried sut mae twf economaidd a grëir gan y cynnig yn defnyddio adnoddau mewn dull cynaliadwy.
	<p>Sut fydd y cynnig hwn yn adeiladu ar, ac yn datgloi cyfleoedd ar gyfer twf economaidd sy'n defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Maen nhw'n cynnwys toeau wedi eu gorchuddio gan blanhigion, muriau, ffasadau ar unrhyw seilwaith. Maen nhw wedi ystyried sut i warchod neu wella mannau agored gwyrdd a glas (megis parciau, afonydd, pyllau, llynnoedd, mannau gwledig, arfordir). Maen nhw wedi adeiladu coed neu greu draeniau trefol wrth ddylunio.
	<p>Sut fyddwch chi'n datblygu datrysiadau arloesol ar gyfer gwaith adeiladu sy'n rhoi blaenoriaeth i gydnerthedd economaidd a seilwaith gwyrdd?</p>	

Pwnc	Yr hyn y gallech ei ofyn	Yr hyn y byddech yn disgwyl ei glywed
<p>Cymru gydnherth (parhad)</p>	<p>Parthed cynigion perthnasol, sut fedrwch chi wella bioamrywiaeth (dyletswydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016) drwy gyfrwng y cynnig hwn?</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gallant esbonio sut y gall y cynnig gyfrannu'n gadarnhaol i fioamrywiaeth e.e. plannu rhywogaethau brodorol, gadael darnau o laswellt heb ei dorri, rheoli ymyl ffyrdd i warchod bywyd gwylt, defnyddio papur o ffynonellau cynaliadwy.
	<p>Sut fedrwch chi ein helpu i dyfu cymunedau mwy cynaliadwy, cyfeillgar i'r amgylchedd a chwarae rhan weithgar yn y rôl o fynd i'r afael â chynhesu byd-eang?</p>	<ul style="list-style-type: none"> Maen nhw'n ennyn ymgyfraniad cymunedau yn eu cynnig.
	<p>A oes yna gyfle i herio comisiynu i gwtogi ar gludo nwyddau/pobl sydd eu hangen ar gyfer cyflwyno gwasanaethau?</p>	<ul style="list-style-type: none"> Maen nhw'n ystyried camau ymarferol i annog eraill yn y sefydliad neu'r rhai hynny sy'n cael eu comisiynu i fod yn garedicach i'r amgylchedd.
<p>Cymru iachach</p> <p>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl yn cael eu maximeiddio a lle mae dealltwriaeth o ddewisiadau ac ymddygiadau sy'n fanteisiol i iechyd yn y dyfodol.</p>	<p>Sut fydd y cynnig hwn yn mynd i'r afael â phenderfynyddion iechyd meddyliol a chorfforol a llesiant pobl o bob oed?</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gallant esbonio sut y gallai'r cynnig effeithio ar ansawdd aer; effeithio ar iechyd meddwl lleol; annog neu beidio annog dewisiadau ac ymddygiadau iach; gwella mynediad lleol i fannau agored o ansawdd da; gwella a chreu cyfleoedd ar gyfer teithio llesol; effeithio ar gadwyni cyflenwi lleol i wella mynediad fforddiadwy i gynnyrch cynaliadwy, iach a ffres; galluogi dealltwriaeth ac/neu ddarpariaeth bwyd iach.
	<p>Sut fydd y cynnig yn gwella llesiant corfforol a meddyliol yn awr ac yn y dyfodol?</p>	
	<p>Sut ydych chi wedi meddwl am lesiant staff yn ystod y cynnig hwn?</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae llesiant staff wedi cael ei ystyried ac mae yna bethau yn eu lle i naill ai warchod neu wella llesiant.
	<p>Sut fedrwch chi ddylanwadu ar y rhai hynny sy'n comisiynu gwasanaethau i gynnwys llesiant corfforol a meddyliol eu staff?</p>	
	<p>Are there opportunities to offer benefits to the workforce through this proposal?</p>	

Pwnc	Yr hyn y gallech ei ofyn	Yr hyn y byddech yn disgwyl ei glywed
<p>Cymru fwy cyfartal</p> <p>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (yn cynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).</p>	<p>Pwy sy'n cael y budd mwyaf o'r cynnig hwn? Sut fedr mwy/gwahanol grwpiau o bobl elwa wrth i'r cynnig gael ei gyflawni?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Maen nhw wedi ennyn ymgyfraniad ystod o bobl (yn fewnol, allanol ac aelodau o'r cyhoedd) i edrych ar effaith y cynnig ar wahanol grwpiau. Mae'n nhw'n onest ynglŷn â'r rhai nad ydynt wedi ennyn eu hymgyfraniad. • Maen nhw wedi archwilio effeithiau posibl cadarnhaol a negyddol y cynnig ar bobl ac wedi egluro'r rhain. Maen nhw wedi meddwl am y modd y gallai'r effeithiau hyn gael eu gwella. Maen nhw wedi meddwl am y modd y bydd y cynnig yn effeithio ar bobl drwy gydol cyfnod ei gyflawniad.
	<p>Pwy sy'n profi effeithiau negyddol – yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol – drwy'r cynnig hwn?</p>	
	<p>Pwy o bosib sy'n cael eu gadael allan o'n hystyriaethau? Pa wahanol ddulliau a ddefnyddiwyd gennych i sicrhau fod pobl yn cael cyfle cyfartal i gyfrannu/elwa?</p>	
	<p>A ydych chi wedi ystyried cyfleoedd cyfartal parthed anghenion addysg, iechyd, tai, ymgyfraniad?</p>	
	<p>Sut fydd y cynnig hwn yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac yn cyfrannu tuag at gymdeithas decach?</p>	
	<p>Sut mae'r cynnig yn rhoi liferi ar gyfer gwrthdroi anfanteision hirdymor, ac yn cynorthwyo grwpiau o dan anfantais mewn ffyrdd sy'n gynaliadwy yn yr hirdymor?</p>	
	<p>A fydd y cynnig yn cael ei ddatblygu yn y fath ffordd fel ei fod nid yn unig yn fuddiol i grŵp bach o sefydliadau â diddordeb neu unigolion?</p>	
	<p>A yw penderfyniadau hyd yn hyn wedi cael eu gwneud mewn ffordd ddemocrataidd a chyfartal, gan alluogi pob llais a barn i gael eu clywed yn hytrach na gadael i leisiau pwerus ddominyddu?</p>	
	<p>A yw'r cynnig yn ychwanegu adnoddau ychwanegol i ardaloedd lle mae llawer o anfanteision e.e. cyflogaeth, cyfleusterau cyhoeddus i adeiladu cyfalaf cymdeithasol, seilwaith o safon megis ysgolion a gofal iechyd?</p>	

Pwnc	Yr hyn y gallech ei ofyn	Yr hyn y byddech yn disgwyl ei glywed
<p>Cymru o gymunedau cydlynol</p> <p>Cymunedau hyfyw, diogel â chysylltiadau da.</p>	Sut fydd y penderfyniad yn gwella cynhwysiant cymdeithasol?	<ul style="list-style-type: none"> • Maen nhw wedi ennyn ymgyfraniad aelodau'r gymuned, busnesau lleol a darparyddion trafndiaeth i ddeall effaith y cynnig ar yr ardal. Maen nhw wedi ystyried sut y gall y cynnig wella'r ardal, diogelwch ei phreswylwyr a gwella cysylltedd (digidol neu ffisegol).
	Sut fydd y rhain yn creu cymdogaethau sy'n ddymunol i weithio a byw ynddynt?	
	Sut fydd y penderfyniad hwn yn helpu i integreiddio grwpiau oedran yn ein cymunedau?	
	Sut mae hyn yn cynorthwyo'r themâu allweddol o fewn y rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru?	
	Sut mae hyn yn effeithio ar Gyngorau Cymuned?	
	A yw'r cynnig yn helpu i wneud mannau cyhoeddus i deimlo'n fwy diogel a chroesawgar, yn arbennig ar gyfer plant, pobl hŷn, pobl ag anableddau, menywod a grwpiau eraill, i sicrhau mannau agored cyhoeddus sy'n amrywiol a bywiog?	
	Sut rydyn ni'n rhannu arfer i gynorthwyo diogelwch pobl yn eu cartrefi?	
	Sut fedrwn ni leihau'r tebygrwydd o fedru atal y cynnig hwn rhag effeithio'n negyddol ar ddarpariaeth gymunedol leol?	
	Sut fydd y cynnig hwn yn cynorthwyo amwynderau lleol (e.e. busnesau lleol, cysylltiadau trafndiaeth) a chryfhau cysylltiadau cymdeithasol?	
	Ym mha fodd y mae'r cynnig wedi ei ddylunio mewn partneriaeth â'r gymuned i gwrdd â'i hanghenion a'u dymuniadau ar gyfer yr ardal/gofod?	

Pwnc	Yr hyn y gallech ei ofyn	Yr hyn y byddech yn disgwyl ei glywed
<p>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</p> <p>Cymdeithas sy'n hybu ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.</p>	<p>Sut mae'r cynnig hwn yn cadw a gwella cyfleoedd diwylliannol a ieithyddol lleol, e.e. darparu lleoliadau newydd e.e. celfyddyd/cerddoriaeth/stiwdios dawn, cyfleusterau chwaraeon, gwyliau celfyddydol, amgueddfeydd/orielau, sinemâu) gan warchod a chadw'r rhai sefydledig; cynorthwyo artistiaid lleol?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Maen nhw wedi ystyried sut mae'r cynnig yn effeithio ar ddiwylliant yr ardal a'r Gymraeg. • Mae'r cynnig yn cynnwys dulliau o wella diwylliant a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.
	<p>Sut mae'r cynnig hwn yn cynyddu mynediad lleol i bawb – i'r celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau oriau hamdden?</p>	
	<p>Sut mae'r cynnig hwn yn sicrhau bod y cyfleoedd yn hygyrch i bawb, e.e. yn fforddiadwy, trafndiaeth gyhoeddus hygyrch, yn darparu mynediad i bobl anabl?</p>	
	<p>Sut mae'r cynnig hwn yn effeithio'n anuniongyrchol ar gynaliadwyedd diwylliant lleol amrywiol? Er enghraifft, a allai mynd i'r marchnadoedd tai lleol drwy annog pobl i brynu tai haf. Neu effeithio ar ymarferoldeb lleoliadau cyfleusterau lleol, neu wthio'r Gymraeg i'r ymylon?</p>	
	<p>Sut mae'r cynnig hwn yn effeithio ar safleoedd naturiol neu safleoedd treftadaeth cyfagos?</p>	
	<p>Sut mae'r cynnig hwn yn effeithio ar dirwedd gyffredinol yr ardal?</p>	
	<p>Sut fedr y cynnig hwn gadw a chynyddu darpariaeth y Gymraeg, y defnydd o'r ardal a'i hetifeddiaeth?</p>	
	<p>Sut mae tueddiadau hirdymor yr ardal wedi cael eu hystyried o safbwynt twf y Gymraeg?</p>	

Pwnc	Yr hyn y gallech ei ofyn	Yr hyn y byddech yn disgwyl ei glywed
<p>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang</p> <p>Cenedl, sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn gofyn a fyddai cymryd y fath gam yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i lesiant byd-eang a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft y newid yn yr hisnawdd).</p>	Sut fydd y cynnig hwn yn pwrcasu cyfrifoldeb (cynaliadwy a moesegol/defnyddio cynnyrch Masnach Deg a chadwyni cyflenwi byd-eang?)	<ul style="list-style-type: none"> • Maen nhw wedi ymroi i sicrhau bod y cynnig yn gynaliadwy, yn defnyddio pwrcasu cyfrifol ac yn cysylltu â gwledydd eraill.
	Sut mae'r cynnig hwn yn caniatáu i ni adeiladu cysylltiadau byd-eang â gwledydd eraill?	
	Sut fedrwch chi facsimeiddio'r defnydd o gyfathrebu, cyfryngau cymdeithasol a'r wefan i hybu negeseuon am y cynnig hwn ac ennyn ymgyfraniad pobl yn ei gyflawniad?	
	Sut fedr y cynnig hwn gyfrannu at system lle gellir lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr?	
	Sut fedrwch chi, drwy gyfrwng y cynnig, leihau allyriadau carbon – mewn cynhyrchu a'r defnydd a wneir ohono?	



Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r
Dyfodol Cymru
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

02921 677400
contactus@futuregenerations.wales

© 2019 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru